

CYNGOR TREF PORTHMADOG



Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Medi 13 2022

Presennol :- Cynghorwyr :- Carol Hayes, Sandra Bodden Jones, Aled Griffith, Alwyn Gruffydd, Dr Melfyn Edwards, Gwilym Jones, Selwyn Griffiths, Llywelyn Rhys (Cadeirydd), Michael Roberts, Llinos Murphy
Marian Roberts (Clerc)

120.9.22 Ymddiheuriadau:- Cyng Keith Roberts

121.9.22 Adroddiad y Cadeirydd.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod a dechreuodd y Cadeirydd drwy gydymdeimlo gyda'r rhai sydd wedi cael profedigaeth o golli anwyliaid boed yn deulu, ffrind, cydnabod neu unrhyw un i'w barchu a'i edmygu. Dywedodd fel y mae cwestiynau cyfansoddiadol yn cael eu codi yn y gwledydd yma ar hyn o bryd a bod croeso i'r Cynghorwyr godi'r mater yn y cyfarfod nesaf. Roedd yn datgan anfodlondeb ynglyn â bodolaeth fflag Jac yr Undeb ar yr Harbwr ac ynglyn â'r anghysondeb gyda safle fflagiau Cymru ar yr Harbwr. Roedd yn dymuno i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i fynegi hyn.

Roedd yn mynegi cydymdeimlad hefyd i deulu Barry Evans a fu farw ym mis Awst. Roedd Barry yn fachgen lleol gyda rhwydwaith o deulu yn ardal Porthmadog ers cenhedloedd. Roedd yn ŵr ifanc talentog a hoffus iawn – yn ddawnus iawn yn y maes cerddorol gan fod yn aelod o'r Moniars ac yn gyfansoddwr medrus gan iddo ennill cystadleuaeth Cân i Gymru gyda'i ferch Mirain.

Dywedodd ei bod wedi bod yn haf prysur i dref Porthmadog unwaith eto gyda'r twf yn yr ymwelwyr yn golygu pwysau ychwanegol ar wasanaethau ac ar amgylchedd yr ardal ond fod y prysurdeb yn golygu hwb i'r economi bob blwyddyn. Roedd yn ymwybodol o'r problemau diweddar ynglyn â'r nifer cynyddol o "motor homes" ar draeth Morfa Bychan a'u heffaith andwyol ar amgylchedd a natur fregus y safle.

Roedd yn cloi ar nodyn cadarnhaol drwy longyfarch merch leol, Medi Harris, ar ei llwyddiant ysgubol yn ennill lluo o fedalau yng nghystadlaethau nofio Gemau'r Gymanwlad yn nhref Birmingham ac ym mhencampwriaeth Rhufain yn ddiweddar. Roedd hi wedi cynrychioli Cymru a Phorthmadog yn anrhydeddus iawn ac roedd y Cadeirydd yn dymuno estyn llongyfarchiadau ar ran y Cyngor Tref iddi hi ar ei llwyddiant. Roedd hefyd yn diolch i rieni Medi Harris am eu cefnogaeth iddi ar hyd y blynyddoedd ac am eu hymroddiad a'u gofal ohoni yn ystod ei hyfforddiant a'i llwyddiant.

122.9.22 Cadarnhau cywirdeb cofnodion :-

Cyfarfod Rheolaidd Pwyllgor Llawn Gorffennaf 12 2022 – Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio

Cyfarfod Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo Gorffennaf 26 2022 – Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Aled Griffith yn eilio. Holwyd os oedd hi'n arferol i drafod

Ceisiadau Cynllunio mewn cyfarfodydd Is-bwyllgor Cyllid. Eglurodd y Cadeirydd mai gofynion amser oedd y rheswm am hyn gan fod angen ymateb i'r ceisiadau o fewn unai 14 neu 21 diwrnod i'w derbyn.

123.9.22. Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.

Cyng Llywelyn Rhys - Gohebiaeth rhif 17 – 154.9.22 Cyfoeth Naturiol Cymru

Materion i'w dwyn gerbron :-

124.9.22 Cyng Selwyn Griffiths:- cynnig cymeradwyo penderfyniadau'r Is-bwyllgor Cyllid ac Eiddo 26.7.22.

Penderfynwyd :- gweithredu ar benderfyniadau'r Is-bwyllgor Cyllid ac Eiddo 26.7.22 yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

125.9.22 Cyng Alwyn Gruffydd :-cynnig gweithredu i ail-sefydlu'r Clwb leuencid.

Cafwyd trafodaeth hir ynglyn â'r diffyg cyfleon sydd ar gael yn lleol i bobl ifanc i gyfarfod ac i gymdeithasu mewn modd anffurfiol. Mynegwyd pryderon am effeithiau hir-dymor y gor-ddibyniaeth ar y rhyngwyd a'r sgil effeithiau ar bobl ifanc sydd yn treulio oriau ynysig ac unig ar y Wê yn hytrach na chymdeithasu wyneb yn wyneb. Gwyntyllwyd y posibilrwydd o gyflogi rhywun yn barhaol i redeg Clwb leuencid gan fod digon o arian yng nghoffrau'r Cyngor Tref ar gyfer hyn. Soniwyd hefyd am gynnal Clwb leuencid drwy drefnu gwirfoddolwyr ond mynegwyd pryder am oblygiadau cyfreithiol hyn o ystyried diogelwch plant a'r angen am wasanaeth DBS i wirio unigolion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc. Mae swyddogion Adran Plant a Phobl Ifanc Cyngor Gwynedd, Sion Bryn Roberts a Nia Heledd, wedi bod yn darparu rhaglen o weithgareddau ar gyfer pobl ifanc am gyfnodau ond cytunwyd fod angen rhywbeth llai ffurfiol mewn lleoliad rheolaidd ar gyfer pobl ifanc ardal Porthmadog.

Penderfynwyd :- ysgrifennu at Sion Bryn Roberts a Nia Heledd i ddatgan pryderon y Cyngor Tref fel y soniwyd uchod; i ddatgan dymuniad y Cyngor Tref i ail-sefydlu Clwb leuencid yn y dref; ac i'w gwahodd i gyfarfod y Cyngor Tref er mwyn iddynt gael cyfle i esbonio yn union beth yw'r ddarpariaeth sydd ar gael, yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

126.9.22 Cyng Gwilym Jones :- cynnig ethol cynrychiolydd o'r Cyngor Tref i gymryd lle'r cyn-Gynghorydd Ian Wyn Jones ar Fforwm Cymunedol Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

Penderfynwyd :- derbyn Cyng Selwyn Griffiths oedd yn cynnig ei hun fel cynrychiolydd ar y Fforwm yn lle Ian Wyn Jones.

127.9.22 Cyng Gwilym Jones :- cynnig llythyru Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt ail-sefydlu'r Golff Bach / Crazy Golf yn y Parc ar gyfer Pasg 2023.(Gweler hefyd Gohebiaeth 13)

Penderfynwyd :- gweithredu ar gynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio gan ychwanegu cydnabod ac ateb llythyr Thomas Clarke a holi beth yw cynlluniau Cyngor Gwynedd ar gyfer y Parc.

128.9.22 Cyng Sandra Bodden Jones :- cynnig gwobrwyo Medi Harris gyda phlac i'w anrhydeddu am ei llwyddiant yng Ngemau'r Gymanwlad.

Penderfynwyd :- y Cynghorwyr i ystyried y mater a dod a syniadau ar sut i weithredu i'w rhoi gerbon i'w trafod er mwyn penderfynu yng nghyfarfod mis Hydref.

129.9.22 Cyng Aled Griffith :- cynnig rhoi Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023 ar raglen pob cyfarfod misol dros y flwyddyn nesaf er mwyn trefnu'r eitemau fydd yn codi.

Clywyd fel yr oedd ardal Eisteddfod Genedlaethol Tregaron eleni wedi mynd i drafferth i addurno yr ardal yn effeithiol iawn ac y dylid ceisio efelychu hyn yn nhref Porthmadog gan y bydd cymaint o bobl yn teithio drwy'r dref ar eu ffordd i Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023. Trafodwyd y syniad o gomisiynu gwaith celf ar gyfer yr achlysur. Roedd ansicrwydd ynglyn â phwy yn union sydd i ariannu addurniadau fel hyn – yr Eisteddfod yn ganolog? Pwyllgor codi arian lleol? Neu Cynghorau Cymuned?

Penderfynwyd :- ysgrifennu at Mai Bere, Ysgrifenyddes Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023 i ofyn am arweiniad a syniadau ar sut i symud ymlaen.

130.9.22 Cyng Sandra Bodden Jones :- cynnig noddï unigolion sydd yn llwyddiannus yn eu camp unigol.

Eglurwyd fod y Rheolau Sefydlog (sydd yn dilyn templad gan Un Llais Cymru) yn datgan mai i grwpiau yn unig y gellir rhoi cyfraniad ac nid i unigolion. Nodwyd mai yn ystod y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai yn unig y gellir cynnig diwygiadau neu newidiadau i'r Rheolau Sefydlog.

Penderfynwyd :- ysgrifennu at Un Llais Cymru i ofyn am arweiniad ac i ofyn os oes hawl gan y Cyngor Tref i roi cyfraniad i unigolion, yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Carol Hayes yn eilio.

131.9.22 Cyng Sandra Bodden Jones :- cynnig rhannu gwybodaeth am Grantiau efo grwpiau lleol.

Roedd Cyng Sandra Bodden Jones yn dymuno tynnu'r cynnig yn ôl gan iddi ddweud mai cwestiwn oedd hwn. Cadarnhawyd fod ganddi hawl i basio ymlaen unrhyw wybodaeth am Grantiau i grwpiau lleol.

132.9.22 Cyng Aled Griffith :- cynnig gyrru llythyr i berchnogion Premier Inn i holi a oes bosib iddynt drefnu i gontractwyr beintio llinellau melyn o gwmpas mynedfa'r gwesty a mynedfa llwybr y Cob i leihau'r broblem parcio sy'n bodoli ers agor y gwesty oherwydd maint y maes parcio. (gweler llun Gohebiaeth 15)

Penderfynwyd :- gweithredu yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

133.9.22 Cyng Aled Griffith :- cynnig adnewyddu giât Cae Bodawen - Cael pris i osod polyn cadarn i dderbyn y giât fawr a gosod giât mochyn newydd i gerddwyr/cadeiriau olwyn. Neu cael pris i dynnu y giât fawr a gosod giât mochyn newydd i gerddwyr/cadeiriau olwyn.

Penderfynwyd – pasio'r mater ymlaen i'w drafod ymhellach yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Eiddo.

134.9.22 Cyng Aled Griffith :- cynnig gyrru llythyr i Gyngor Gwynedd i holi os oes bosib rhoi bin ysbwriel wrth gerflun Madog, neu i Gyngor Tref brynu bin a chael cytundeb gan Gyngor Gwynedd i'w wagio.

Penderfynwyd :- gweithredu ar gynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Sandra Bodden Jones yn eilio hefyd ychwanegu y bydd Cyng Selwyn Griffiths a Cyng Llinos Murphy yn trefnu mynd i ymweld â Rheolwr y Premier Inn i ofyn os fyddent yn fodlon gosod bin sbwriel ar y safle eu hunain gan ofalu eu bod hefyd yn ei wagio yn rheolaidd.

135.9.22 Cyng Gwilym Jones :- cynnig bod pob Cyngorydd o bob Ward yn gwneud ei ddyletswydd drwy astudio manylion pob cais cynllunio yn drylwyr cyn y cyfarfod fel bod pob cais cynllunio yn cael chwarae teg.

Eglurodd Cyng Gwilym Jones iddo gael profiad anghyffyrddus mewn cyfarfod o aelodau Cyngor Gwynedd yn ddiweddar pan ddeallodd fod y Cyngor Tref wedi gwrthod Cais Cynllunio am resymau anghywir oherwydd nad oeddent wedi astudio'r cais yn ddigon manwl. Roedd yn atgoffa'r Cyngor o'r angen i astudio'n fanwl pob cais cynllunio cyn dod i benderfyniad arno.

Penderfynwyd :- derbyn cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

136.9.22 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. Dyddiad cau Rhaglen Hydref 11 2022 = Hydref 1 2022 , (Rheolau Sefydlog 8.1 " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)

- Enwebu Medi Harris ar gyfer Gwobrau Dewi Sant 2023
- Clwb Ieuencid
- Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd
- Cyfethol mwy o Gynghorwyr

137.9.22 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).

Mynegwyd siom unwaith eto na chafwyd atebion i 3 llythyr sydd eisoes wedi cael eu ail-yrnu.
Penderfynwyd :- ysgrifennu llythyr ychwanegol i fynegi anfonlonrwydd ac yn cynnwys y llythyr

gwreiddiol i Factory Shop, Rod Taylor-Betsi Cadwaladr a Iwan Evans yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths.

Gohebiaeth :

138.9.22 OPENREACH, Diweddariad y polyn ar y Stryd Fawr

Penderfynwyd – Derbyn y wybodaeth

139.9.22 HYWYN WILLIAMS C.G., Diweddariad ar gynllun coed Cae Bodawen

Penderfynwyd – Derbyn y wybodaeth

140.9.22 LLYWODRAETH CYMRU, Ymgynghoriad Treth Gyngor Decach

Penderfynwyd – Derbyn y wybodaeth

141.9.22 ANDREW GREGSON C.G., Ymateb i 79.7.22 problemau parcio Tremadog

Penderfynwyd – Derbyn y wybodaeth a'r Cynghorwyr Aled Griffith a Sandra Bodden Jones i weithio gyda'i gilydd i lunio sylwadau fel ymateb i'r llythyr erbyn cyfarfod mis Hydref.

142.9.22 RHIAN WYN WILLIAMS C.G., Ymateb i 104.7.22 llochesi bws Porthmadog

Penderfynwyd – Derbyn y wybodaeth a phasio'r mater ymlaen i'r Is-bwyllgor Eiddo

143.9.22 CYNGOR GWYNEDD, Canllaw Dylunio Atodol Llechi

Penderfynwyd – Derbyn y wybodaeth

144.9.22 BARRY DAVIES C.G., Ymateb i 107.7.22 Traeth Morfa Bychan

Penderfynwyd :- datgan anniddigrwydd yn ymateb Barry Davies a chyfeirio ei ebost i sylw'r Prif Weithredwr a gwahodd Barry Davies i gyfarfod y Cyngor Tref i egluro ymhellach yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Carol Hayes yn eilio.

145.9.22 DAFYDD WYN WILLIAMS C.G., Ymateb i 88.7.22 cynlluniau ar gyfer y Nyrseri

Penderfynwyd – Derbyn y wybodaeth gyda bodlonrwydd.

146.9.22 DAVID CHARLES WILLIAMS C.G., Tîm Tacluso Ardal Ni

Penderfynwyd – Derbyn y wybodaeth a chadw cofnod o'r wybodaeth er mwyn defnyddio'r gwasanaeth i'r eithaf.

147.9.22 ARWEL WILLIAMS – TOM PARRY, Cydnabyddiaeth i Medi Harris

Penderfynwyd :- ysgrifennu yn ôl at Arwel Williams i ddiolch iddo am ei ebost ac i egluro beth sydd ar y gweill gan y Cyngor Tref o ran trefnu cydnabyddiaeth i Medi Harris.

148.9.22 ELERI DAVIES – YSGOL Y GORLAN, Ymateb i lythyr Is-bwyllgor Eiddo a Datblygu - Cae Chwarae Bodawen

Penderfynwyd – Derbyn y wybodaeth

149.9.22 JULIE JAMES, Adran 6 y ddyletswydd bioamrywiaeth

Penderfynwyd – Derbyn y wybodaeth

150.9.22 THOMAS CLARKE, Mini Golff yn y parc

Wedi trafod y mater eisoes - gweler eitem 127.9.22.

151.9.22 G.L.JONES, Adroddiad ar offer chwarae Cae Bodawen (copi electronig yn unig)

Penderfynwyd – Derbyn y wybodaeth a phasio'r mater ymlaen i'r Is-bwyllgor Eiddo

152.9.22 LLUN , PARCIO PREMIER INN

Wedi trafod y mater eisoes – gweler eitem 132.9.22

153.9.22 GEMMA McCAMLEY, Ymateb i 93.7.22 diffyg deintyddion

Penderfynwyd :- ysgrifennu at Mabon ap Gwynfor i ofyn am ei gefnogaeth a'i help i ddatrys y mater dros y gymuned yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

154.9.22 ANDREW BASFORD, Ymateb i 117.7.22 cynnig dod ym mis Hydref

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu yn ôl i drefnu cyfarfod ym mis Hydref.

155.9.22 SIONED THOMAS, Ymateb i 76.7.22 – Grwp Cleifion Hwb Eifionydd

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i ddatgan siomedigaeth yn ei hymateb gan iddi beidio a chynnwys cynrychiolaeth o aelodau Cynghorau Tref a Chymuned yn y grŵp yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

156.9.22 ELAINE CRIPPS, Gwobrau Dewi Sant 2023

Penderfynwyd :- trafod y mater o enwebu Medi Harris ar gyfer Gwobrau Dewi Sant 2023 yng nghyfarfod mis Hydref gan nad yw'r dyddiad cau tan 20.10.22.

157.9.22 JOHN BRADLEY, Jet skis ym Mae Samson

Penderfynwyd – Derbyn y wybodaeth a gyrru'r ebost ymlaen i sylw Barry Davies a diolch i John Bradley am ddod a'i bryderon i sylw'r Cyngor Tref yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

158.9.22 GWENNO RICE ROBERTS, Catalyddion cymunedol

Penderfynwyd – Derbyn y wybodaeth

159.9.22 STEFFAN PRYS ROBERTS, Cefnogi prosiectau ymarferol i agor ysgolion i'r gymuned

Penderfynwyd – Derbyn y wybodaeth a phasio'r wybodaeth ymlaen i Glwb Chwaraeon Madog, Canolfan Glaslyn, Canolfan Morfa Bychan a'r Institute yn Nhremadog

**160.9.22 Materion Ariannol :
Derbyniadau :**

CAE PAWB	Rhent	£	15.00
HSBC	Llog Banc Mehefin / Gorffennaf 2022	£	1.49
NEST PENSIONS	Ad-daliad am optio allan o'r cynllun	£	27.79
HSBC	Llog Banc Gorff / Awst	£	4.32
CYNGOR GWYNEDD	Ail daliad Praesept 2022-23	£	31,290.71

Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Aled Griffith yn eilio.

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê Awst 2022	£	51.71
2	Marian Roberts	Cyflog Clerc Awst 2022	£	850.12
3	Marian Roberts	Ad-daliad Inc i'r printer	£	18.00
4	Cyllid a Thollau ei Mawrhydi	Treth Incwm cyflog Clerc Awst 2022	£	216.88
5	Y Ganolfan	Cyfarfod Pwyllgor Llawn Gorffennaf 12	£	40.00
6	G.L.JONES	Gwaith atgyweirio offer Cae Chwarae Bodawen yn dilyn archwiliad 2021	£	810.00
7	G.L.JONES	Archwiliad offer Cae Chwarae Bodawen 9.7.22	£	316.80
8	FFION GWYN	Byrddau arddangos adar Cob Crwn	£	1,200.00

9	XEROX FINANCE	Llogi llungopiwr o 1.10.22 i 31.12.22	£ 104.40
10	UN LLAIS CYMRU	2 gwrs Cyng Sandra Bodden Jones 20.7.22 a 21.7.22 ac un cwrs Cyng Michael Roberts 13.07.33	£ 52.50
11	DEFIB STORE LTD	1 cabinet diffibriliwr	£ 481.44

Biliau wedi eu talu ym mis Awst

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê Gorffennaf 2022	£ 52.41
2	Marian Roberts	Cyflog Clerc Gorffennaf 2022 yn cynnwys ad-daliad Pensiwn Nest £27.79	£ 895.28
3	Cyllid a Thollau ei Mawrhydi	Treth Incwm cyflog Clerc Gorffennaf 2022	£ 216.88
4	Marian Roberts	Ad-daliad Tanysgrifiad Blwyddyn Microsoft Teams	£54.72
5	Marian Roberts	Ad-daliad tanysgrifiad AVG Virus Protection 2022-2023	£ 78.99
6	Un Llais Cymru	Cwrs Cadeiryddio Llywelyn Rhys 30.6.22	£ 17.50

(Mae copi o bob sic ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

161.9.22 Ceisiadau Cynllunio

(a) Rhif Cais / Application No.: C22/0791/44/HD (wedi ebostio 1.9.22)

Lleoliad : Building To The South Of Black Rocks Cafe, Morfa Bychan, LL49 9UT

Bwriad : Dymchwel cyn gyntiau cwn

PENDERFYNIAD :- DIM GWRTHWYNEBIAD

(b) Rhif Cais .: C22/0799/44/LL (wedi ebostio 2.9.22)

Lleoliad : Tir Yn Smith Street,, Porthmadog, LL49 9NN

Bwriad : Adeiladu 4 tŷ teras /

PENDERFYNIAD :- DIM GWRTHWYNEBIAD ar yr amod fod elfen o dai fforddiadwy yn cael ei gynnwys yn unol â rheolau cynllunio Cyngor Gwynedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 21.00.

Marian Roberts
(Clerc)

17.9.22